Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: DC/JJ/00529/21

John Griffiths AS - Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Senedd Cymru

SeneddCymunedau@senedd.cymru

03 Mawrth 2021

Annwyl John,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol i roi gwybod i chi y bydd Cyfarfod Gweinidogol y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig (BIC) ar y Sector Gwaith Cynhwysiant Digidol yn cael ei gynnal yr wythnos hon, sef dydd Gwener 5 Mawrth. Mae'r Aelod-weinyddiaethau wedi cytuno i gynnal cyfarfod rhithiol, dan arweiniad Ynys Manaw. Fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am gynhwysiant digidol, fi fydd yn cynrychioli Llywodraeth Cymru.

Mae'r cyfarfod yn gyfle i Aelod-weinyddiaethau'r BIC drafod cynhwysiant digidol, sy'n gwestiwn allweddol o ran cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb, a'r gweithgarwch sy'n mynd rhagddo ar draws y gweinyddiaethau i sicrhau bod pobl yn gallu ymgysylltu â'r newidiadau technolegol sy'n digwydd mor gyflym yn ein cymdeithas, a manteisio arnynt. Yn ogystal, bydd yn gyfle i drafod effaith y pandemig ar agenda cynhwysiant digidol a'r rôl hollbwysig y mae'n rhaid inni i gyd ei chwarae er mwyn helpu dinasyddion i feithrin hyder digidol drwy gyfuniad o gymhelliant, sgiliau digidol sylfaenol a mynediad.

Bydd y cyfarfod yn rhoi cyfle i Weinidogion ystyried gwaith ehangach sy'n digwydd ar draws y sectorau mewn perthynas â diogelwch ar-lein, gan ddod i gytundeb ar yr un pryd ar y Cynllun Gwaith i'r dyfodol.

Bydd y cyngor yn cytuno ar hysbysiad yn y cyfarfod, a byddaf yn rhoi'r manylion cyhoeddi a chanlyniad y cyfarfod i'r Pwyllgor maes o law.

Rwyf wedi ysgrifennu mewn termau tebyg at gadeiryddion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Mick Antoniw AS; y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Lynne Neagle AS; Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, Bethan Sayed AS; a Phwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Russell George AS.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government